

Atodiad 1

Crynodeb o'r Strategaeth Ymwneud Digidol

Yr agwedd

Fe wnaethom ddarparu cyfleoedd i randdeiliaid ymwneud er mwyn helpu i ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol. Nod yr ymwneud oedd dal adborth rhanddeiliaid am gynnwys y drafft o Strategaeth Ddigidol yn ogystal â deall barn a phrofiadau'r rhanddeiliaid yng nghyswllt y maes digidol.

Sail i'r ymwneud yr oedd ymgyrch gyfathrebu oedd yn cynnwys negeseuon allweddol, gan dargedu ein rhanddeiliaid allweddol yn benodol. Yr oedd yr ymwneud hefyd yn gyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd roi sylwadau am yr hyn y teimlant hwy y dylai'r Strategaeth Ddigidol ganolbwyntio arno.

Cymerir agwedd ddeublyg at yr ymwneud.

Cam 1- Ymwneud â'r holl randdeiliaid ar y blaenoriaethau yn y strategaeth ddrafft, gan gynnwys adborth am eu profiadau presennol yng nghyswllt y maes digidol a beth yw blaenoriaethau pob grŵp o randdeiliaid.

Cam 2- Ymwneud pellach â'r drafft terfynol i sicrhau bod y safbwyntiau a gafwyd yng nghanam 1 yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth derfynol a'i fod yn cyfarfod ag anghenion y rhanddeiliaid.

Crynodeb Weithredol

Yr oedd Ymwneud y Strategaeth Ddigidol yn cynnwys nifer o ddulliau ymwneud gan gynnwys arolwg, grwpiau ffocws, seiadau holi a phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol. Dros y dulliau hyn, cafodd dros 800 o bobl eu cynnwys yn yr ymwneud, a arweiniodd at fwy na 4,000 o sylwadau.

Wrth ddadansoddi'r adborth, canfuwyd, i grynhoi, nad oedd y staff yn teimlo eu bod ar hyn o bryd yn gallu mewngofnodi unwaith a gallu cyrchu gwybodaeth am gleifion mewn un man. Ategwyd hyn yn y sylwadau drwyddynt draw, gyda neges gref fod gormod o 'systemau digyswllt' a diffyg cyffredinol o adnoddau TGCh ar gael i'r staff fedru cyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol. Mynediad at un cofnod digidol am y claf oedd y profiad yr hoffai'r staff ei gael fwyaf yn y dyfodol. Gwelwyd diffyg cyllid a diffyg adnoddau TGCh fel y prif resymau pam na all y sefydliad gyflawni amcanion y strategaeth yn ôl y staff.

Ategwyd teimlad y staff hefyd gan gleifion/y cyhoedd, a ddywedodd fod dyheadau'r strategaeth yn debyg o gael eu dal yn ôl oherwydd diffyg cyllid/costau yn ogystal â'r systemau gwael cyfredol. Gwelwyd buddsoddi yn y maes digidol fel yr ateb gorau i hyn.

Yn yr arolwg i gleifion/y cyhoedd drwyddo draw, yr oedd thema eithrio digidol yn amlwg, gydag ymatebwyr yn pryderu y byddai symud i ddigidol yn cau allan rai cleifion ar hyd a lled y gogledd. Themâu eraill ddaeth i'r amlwg oedd y pryderon am ddiogelwch eu data a'r cais am gael un cofnod digidol i'r claf er mwyn osgoi dyblygu/creu gofal mwy cyfun.

Dywedodd nifer fawr o ymatebwyr y buasent yn hapus i gymryd rhan mewn cyfleoedd i ymgynghori ac ymwneud yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod systemau'n cael eu cyd-gynhyrchu yn y dyfodol.

Er na chafwyd llawer o ymatebion gan y partneriaid, gwelwyd thema o bartneriaid eisiau gweithio mewn partneriaeth/cydweithredu, a hefyd fod y partneriaid eisiau mwy o gyfleoedd i ymwneud.

I grynhoi, er mwyn medru cyrraedd nod y Strategaeth Ddigidol a darparu gwell gofal sy'n canoli ar y claf, gwelwyd ei bod yn bwysig i'r Bwrdd lechyd fuddsoddi mewn atebion digidol a sicrhau y darperir adnoddau digonol i gael atebion digidol fel y cofnod lechyd Digidol. Dylid gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod systemau yn cael eu cyd-gynhyrchu ac i osgoi'r ofn o eithrio digidol.